

Grantiau Creu Eich Lle

Dyddiad embargo: 14/06/2017



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Enw	Lleoliad	Disgrifiad
Cyswllt Cymunedol Dyffryn	Casnewydd	<p>Bydd y prosiect yn gweithio o fewn Dyffryn a'r ardaloedd cyfagos i ennyn diddordeb rhai o'r teuluoedd mwyaf difreintiedig, llawer ohonynt gyda phroblemau cymhleth, difrifol ac amlagweddol wrth gynllunio, datblygu a chyflwyno prosiectau a arweinir gan y gymuned. Byddant yn gweithio mewn partneriaeth â Growing Space, Cadwch Gymru'n Daclus a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol a'r effaith gadarnhaol y gall hyn ei chael ar les corfforol a meddyliol trigolion lleol.</p> <p>Bydd y prosiect yn trawsnewid y lle i ofod hamdden a dysgu i'r gymuned, gan ddarparu amgylchedd hyfforddiant awyr agored. Bydd plant yn gallu rhyngweithio â'r amgylchedd naturiol drwy gyfleoedd chwarae a bydd lwybrau cerdded ac ymarfer corff yn cael eu darparu hefyd. Caiff rhestr o weithgareddau ei datblygu i ysbrydoli pobl i gymryd rhan mewn gwella a mwyafu eu gofod gwyrdd ac amgylchedd naturiol. Bydd hyfforddi aelodau'r gymuned i gynnal y coetir yn sicrhau ymdeimlad o berchnogaeth a phlisma anffurfiol i sicrhau cynladwyedd y prosiect.</p> <p>Bydd y prosiect yn defnyddio tir o gwmpas adeiladau golchdy segur Tŷ Tredegar i greu man hygyrch sy'n canolbwyntio ar les corfforol a meddyliol gan gynnwys gofodau synhwyaidd ac ymlacio. Bydd elfennau o waith tirlunio ac allanol, fel clirio gordyfiant llawryf, mieri a phrysgwydd, a chreu troedffyrdd/llwybrau mynediad trwy'r coetiroedd, yn cael eu cynnwys.</p>
Interlink RhCT	RhCT	<p>Bydd y prosiect yn cydweithio â'r gymuned a phartneriaid i ddatblygu dulliau newydd o gysylltu pobl â'u hamgylchedd naturiol, gan reoli adnoddau naturiol a mannau lleol yn wahanol ar gyfer iechyd, lles, hyfforddiant a chyflogaeth. Bydd y prosiect yn digwydd yng nghymunedau Rhondda Fawr Uchaf, sy'n cynnwys prif anheddau Blaenrhondda, Blaen-cwm, Tynewydd, Penyreglyn Treherbert, Ynyswen a Threorci.</p> <p>Maent wedi cynllunio ystod eang o weithgareddau a mentrau gan gynnwys cyflwyno teithiau cerdded er iechyd, campfeydd gwyrdd a thanau gwersyll iach, tyfu bwyd cymunedol a bwyta'n iach a datblygu gwasanaethau mwy ffurfiol ar ffurf presgripsiynau cymdeithasol trwy meddygon lleol, diwrnod adeiladu</p>

Grantiau Creu Eich Lle

Dyddiad embargo: 14/06/2017



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

		tîm a gwobrwyo corfforaethol; adnabod modelau cefnogaeth gymunedol, cadwynau cyflenwi lleol, cyfleoedd twf busnes a chreu swyddi; tyfu cynnyrch yn lleol mewn rhandiroedd segur, ardaloedd diffaith, gerddi cymunedol, cefnogi pobl i dyfu pethau adref, mewn gerddi, tai lloches; a datblygu isadeiledd sy'n cynnal hamdden gymunedol, gweithgareddau iechyd a lles a thwristiaeth er mwyn darparu buddion cymdeithasol ac economaidd hir dymor.
Partneriaeth Adfywio Ynysybwl	RhCT	<p>Bydd y prosiect yn digwydd yn Ynysybwl a Choedwig Daerwynno yn Rhondda Cynon Taf (RhCT), bydd yn defnyddio'r amgylchedd lleol i ddatblygu prosiect a fydd yn ymdrin â thlodi, sgiliau isel a salwch yn yr ardal ac yn creu cwm gwyrdd, cynaliadwy ac wedi'i rwydweithio'n fawr gyda phwyslais ar asedau, busnesau a gweithgareddau sy'n eiddo i'r gymuned.</p> <p>Bydd y prosiect yn datblygu ar draws un ar ddeg o ffrydiau gwaith cysylltiedig sy'n cynnwys: Both cymunedol; ymchwilio i a datblygu mentrau ym maes trwsio beiciau; manege; caffi ac eraill; cyflawni ymchwil ac ymchwilio i ddichonoldeb cynhyrchu ynni cymunedol, gan gynnwys gwynt, haul, hydro, cynhyrchu methan a thanwydd pren; ailddylunio pwll padlo'r gymuned er mwyn iddo fod yn fwy cynaliadwy, ar agor am gyfnodau hwy ac yn cael ei ddatblygu mewn ffordd a fydd yn denu ymwelwyr yn ogystal â defnyddwyr lleol; gwella canolfan weithgareddau awyr agored bresennol y goedwig gan ei wneud yn amwynder mwy hygyrch sydd â mwy o ffocws ar y gymuned, a gyrhaeddir trwy gyfuniad o lwybrau cerdded, beidio a marchogaeth ag arwyddion da sydd wedi eu rhwydweithio; llwybrau gwell sy'n cysylltu'r pentref â'r goedwigaeth; a gwella rhai o'r lleoedd presennol trwy syniadau ateb cyflym sy'n adeiladu ar asedau ac yn gwella bioamrywiaeth.</p>
Grŵp Treftadaeth Brymbo	Wrecsam	Bydd y prosiect yn digwydd mewn cymunedau yn y brynau i'r gorllewin o ganol tref Wrecsam gan gynnwys wardiau etholiadol Brymbo, Bryn Cefn a Gwenfro. Caiff y prosiect ei gyflwyno trwy brosiectau 'ardal' - gan wella lleoedd diriaethol a'r ffyrdd maen nhw'n cael eu defnyddio - a phrosiectau 'cysylltiadau' - a fydd yn creu newidiadau yn y ffyrdd y mae pobl yn ystyried ac yn defnyddio lleoedd ac yn cydweithio â'i gilydd i'w datblygu ymhellach.

Grantiau Creu Eich Lle

Dyddiad embargo: 14/06/2017



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

		<p>Bydd y rhain yn cynnwys: trawsnewid Lodge Valley Park i barc sy'n well i'r gymuned: creu pyrth ac arwyddion; gwneud y 'Bont Suddedig' yn ganolbwynt diogel a hygyrch; marcio allan a rhoi ffensys ar hyd ffin y parc ynghyd â llwybrau gwell a chreu lle chwarae antur wedi ei staffio; clirio rhannau o safle'r hen bentyrrau sorod glo i adfer golygfeydd, gosod seddau ychwanegol (boncyffion coed wedi'u hadfer), arwyddion gwell a hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr mewn prysgoedio a rheoli bioamrywiaeth; creu ardal edrych dros bwll Brymbo, cryfhau astudiaethau bioamrywiaeth o'r safle a chychwyn cysylltiadau addysg gydag ysgolion.</p> <p>Adfywio darn o dir sy'n segur i raddau helaeth trwy greu safle amldeffnydd gan gynnwys gardd gymunedol, rhandiroedd ac ardal weithgareddau; a sefydlu fferm solar gymunedol ar domen rwbel yr hen lofa chwyth.</p>
Menter Môn	Ynys Môn	<p>Amcan y prosiect hwn yw creu CWLWM rhwng cymuned SEIRIOL ac amgylchedd naturiol gwell, rheoledig a chynaliadwy. Bydd ganddo ymagwedd dalgylch eang ar draws tair cymuned wledig Ward Seiriol yn ne-ddwyrain Môn, lle mae tir comin ac asedau cymunedol pwysig yn profi dirywiad mewn cynefinoedd.</p> <p>Mae'r prosiect yn anelu at weithredu a rhoi sylwedd i fodel efelychu sut y gellir cyflawni stiwardiaeth gymunedol weithredol dros asedau naturiol bioamrywiol gwerthfawr. Mae Cwlwm Seiriol yn brosiect integredig strwythuredig a sefydlwyd i greu perthynas symbiotig barhaus (sef CWLWM SEIRIOL) rhwng y gymuned a'i manau agored.</p> <p>Bydd y prosiect hwn yn cyflawni twf gwirioneddol a mesuradwy ym maint, ansawdd ac effeithiau'r berthynas hon rhwng trigolion a lleoedd, ar draws holl sbectra oedran, iechyd, statws, gwybodaeth a chymhelliad. Gyda'r nod sylfaenol o newid bywydau pobl trwy gysylltiadau agosach â'r amgylchedd naturiol, bydd y prosiect hwn yn creu buddion iechyd corfforol a meddyliol i wella lles, adfywio pobl sydd wedi dioddef o ddiffyg cymhelliad a dieithrio, ac ymwybyddiaeth newydd i helpu symbylu ymdeimlad cenedlaethau'r dyfodol o le ac o berthyn yn weithredol.</p>

Grantiau Creu Eich Lle

Dyddiad embargo: 14/06/2017



**ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

		<p>Bydd y gymuned yn ymwneud yn weithredol â deall, rheoli, gwella ac elwa o fannau agored o werth cadwraeth uchel, gan gynnal yr ystod o ecosystemau sy'n nodweddiadol o'r ardal. Mae'r persbectif ardal eang hwn yn sicrhau bod y gymuned yn creu cwlwm ystyrion ac ymarferol gyda chynefinoedd morol, Gwarchodfeydd Natur Lleol dynodedig, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol dynodedig, gwlypdiroedd, tiroedd fferm, gweundiroedd, coetiroedd a safleoedd treftadaeth.</p>
--	--	--